## RHAN 4 – RHEOLAU GWEITHDREFN

---

## RHEOL SEFYDLOG PRESENOLDEB O BELL

1 Oherwydd yr ardal ddaearyddol gymharol fach y mae wardiau'r Cyngor wedi eu lledaenu arni, mewn amgylchiadau arferol disgwylir i Aelodau fod yn bresennol yn gorfforol mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu i Aelodau fod yn bresennol o bell mewn cyfarfodydd.

2 Dylai unrhyw Aelod, sy'n dymuno fod yn bresennol o bell mewn cyfarfod, hysbysu'r Swyddog Monitro am ei ddymuniad i wneud hyn o leiaf 10 Diwrnod Gwaith cyn dyddiad y cyfarfod, pan fo hyn yn ymarferol. Bydd y Swyddog Monitro yn hysbysu Cadeirydd y cyfarfod dan sylw am y cais. Bydd y Cadeirydd, gan ymgynghori â'r Swyddog Monitro, yn penderfynu p'un a gaiff y cais ei ganiatáu ac yn ceisio hysbysu'r Aelod o'i benderfyniad o leiaf 5 Diwrnod Gwaith cyn dyddiad y Cyfarfod. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, bydd y Cadeirydd yn ystyried y rhesymau a roddwyd gan yr Aelod am wneud y cais, ynghyd â'r costau perthnasol i sicrhau cyfleusterau presenoldeb o bell ac unrhyw faterion perthnasol eraill. Ystyrir penderfyniad y Cadeirydd yn un terfynol.

3 Os penderfyna'r Cadeirydd y dylid caniatáu presenoldeb o bell, yna darperir y cyfarpar a'r cyfleusterau a fydd yn angenrheidiol i alluogi presenoldeb o bell i'r Aelod ac i'r cyfarfod. Dylai'r cyfleusterau gydymffurfio â gofynion y Canllawiau Statudol sy'n berthnasol i bresenoldeb o bell fel y'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

4 Oni bai y bydd y Cadeirydd yn penderfynu fel arall, os bydd Aelod sy'n bresennol o bell mewn cyfarfod yn colli cysylltiad o herwydd rhesymau technegol, ni chaiff y cyfarfod ei ohirio.

5 Ni chyfrifir unrhyw Aelod sy'n bresennol o bell wrth benderfynu p'un a oes cworwm (oni bai y bydd y Cadeirydd yn penderfynu fel arall).